# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 13/07/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Anghydraddoldebau Incwm

**C10 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am anghydraddoldebau incwm yng Nghymru? OAQ(3)3024(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan yn gyson ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan amrywiaeth ein polisïau i wella'r canlyniadau economaidd, iechyd ac addysg i bobl ar incwm isel, gan leihau'r bwlch rhyngddynt a phobl incwm uwch.

### Rheoliadau Arfaethedig ar Reoli Tybaco

**C11 Trish Law:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o effaith y rheoliadau arfaethedig ar reoli tybaco yng Nghymru ar siopau bach? OAQ(3)3039(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr oedd yr ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau drafft ar arddangos cynhyrchion tybaco, a ddaeth i ben yr wythnos ddiwethaf, yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol. Mae'r ymatebion ynghylch effaith bosibl y rheoliadau arfaethedig ac ynghylch yr asesiad effaith ei hunan yn cael eu crynhoi ar hyn o bryd. Byddwn yn eu hystyried yn ofalus cyn i ni lunio fersiwn derfynol y rheoliadau.

### Diogelwch Tân

**C12 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer diogelwch tân yng Nghymru? OAQ(3)3030(FM)

**Y Prif Weinidog:** O dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau tân ac achub i ddarparu ar gyfer hyrwyddo diogelwch tân. Mae manylion y gweithgarwch i'w gweld yn fframwaith cenedlaethol tân ac achub Cymru. Y llynedd, neilltuodd Llywodraeth y Cynulliad £27 miliwn ar ei gyfer.

### Cyfradd Beichiogrwydd ymhlith Merched yn eu harddegau

**C13 Dai Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yng Nghymru? OAQ(3)3023(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad bach yng nghyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau. Yn 2008, 44.2 fesul 1,000 o ferched 15 i 17 oed oedd cyfradd dros dro beichiogrwydd ymhlith merched dan 18 oed. Yn 2007, 44.9 oedd y gyfradd.

*Tynnwyd cwestiwn 14 OAQ(3)3045(FM) yn ôl.*

**Toriadau Lles**

**C15 Gareth Jones:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o effaith y toriadau lles ar gymunedau yng Nghymru? OAQ(3)3032(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth San Steffan wedi argymell nifer o gynigion ar ddiwygio lles. Hyd yn hyn, nid oes llawer o fanylion yn y cynigion hyn, ond mae'n amlwg mai pobl fwyaf ddifreintiedig ein cymdeithas fydd yn teimlo'r effeithiau fwyaf.